# Y CYNGOR

## COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MERCHER 29 TACHWEDD 2023 AM 5.00PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd M. Adams – Maer
Y Cynghorydd J. Simmonds – Dirprwy Faer

Y Cynghorwyr:

E. M. Aldworth, C. Andrews, A. Angel, C. Bishop, A. Broughton-Pettit, M. Chacon-Dawson, R. Chapman, P. Cook, S. Cook, D. Cushing, C. Cuss, E. Davies, G. Ead, C. Elsbury, G. Enright, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, C. Forehead, E. Forehead, J. E. Fussell, N. George, C. Gordon, D. Harse, T. Heron, A. Hussey, M. James, L. Jeremiah, G. Johnston, S. Kent, A. Leonard, P. Leonard, C. Mann, A. McConnell, B. Miles, C. Morgan, S. Morgan, B. Owen, T. Parry, L. Phipps, M. Powell, D.W.R. Preece, H. Pritchard, J. Pritchard, J.A. Pritchard, J. Rao, J. Roberts, R. Saralis, S. Skivens, E. Stenner, J. Taylor, C. Thomas, A. Whitcombe, L. Whittle, S. Williams, W. Williams, J. Winslade, C. Wright a K. Woodland.

Ynghyd â:

D. Street (Dirprwy Brif Weithredwr), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd), G. Jenkins (Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Pennaeth Gwasanaethau Plant), S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog Adran 151), R. Tranter (Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), L. Lane (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Dirprwy Swyddog Monitro), D. Beecham (Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol), M. Lewis (Dirprwy Reolwr Etholiadau), K. Peters (Rheolwr Polisi Corfforaethol), I. Richards (Swyddog Gwella Busnes), J. Pearce (Swyddog Gwella Busnes), J. Williams (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion), P. Warren (Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion), S. Ellis (Arweinydd Cynhwysiant ac Anghenion Dysgu Ychwanegol), C. Ewings (Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid - Cyfranogiad a Chynhwysiant), S. Mutch (Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar) ac S. Hughes (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### TREFNIADAU RECORDIO, FFILMIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd y Dirprwy Brif Weithredwr y rhai a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ac y byddai recordiad ar gael yn dilyn y cyfarfod ar wefan y Cyngor – Cliciwch Yma i Weld. Dywedodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud trwy gyfrwng Microsoft Forms.

### ER COFFADWRIAETH

Cyfeiriodd y Maer at farwolaeth ddiweddar cyn Aelod Cabinet ac Aelod Ward Lleol ar gyfer Cwm Darran, sef y Cynghorydd David Hardacre. Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion am funud o dawelwch fel arwydd o barch. Talwyd teyrngedau gan Arweinydd y Cyngor ac Arweinydd grŵp Plaid Cymru.

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr D.T. Davies MBE, N. Dix, A. Gair, D. Ingram-Jones, J. Jones, D. Price, J. Reed a J. Scriven.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorwyr C. Bishop, J. Roberts, J. Taylor, W. Williams, C. Andrews, C. Morgan, E.M. Aldworth, L. Phipps, J. Winslade, A. Farina-Childs, K. Etheridge, A. Broughton-Pettit, C. Elsbury, S. Kent, J. Fussell, R, Chapman, A. McConnell, A. Angel, D. Cushing, M. James, H. Pritchard, J.A. Pritchard, T. Parry, G. Enright, C. Mann, B. Miles, S. Morgan, E. Stenner, M. Evans, J. Rao, G. Ead, S. Skivens, L. Whittle, D. Harse, C. Cuss, M. Powell, N. George, P. Leonard, A. Leonard, E. Forehead ac C. Forehead fuddiant personol yn Eitem 6 ar yr Agenda – Adolygiad Cymunedol – Cynigion Drafft, gan eu bod yn Aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned. Gan mai buddiant personol yn unig oedd hwn, nid oedd yn ofynnol i'r Aelodau hynny adael y cyfarfod, a gallent gymryd rhan lawn yn y ddadl a'r bleidlais. Mae'r manylion hefyd wedi eu cofnodi gyda'r eitem berthnasol.

## 3. CYFLWYNO GWOBRAU

**Gwobr Arwr 2023 y Sefydliad Safonau Masnach Siartredig**

Roedd yr Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd yn falch o gyhoeddi bod y Tîm Safonau Masnach wedi ennill Gwobr Arwr 2023 y Sefydliad Safonau Masnach Siartredig mewn noson wobrwyo a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Nhŷ'r Cyffredin. Cafodd ei chyflwyno i gydnabod ymdrechion diwyro a gwaith ymroddedig staff ar Fridwyr Cŵn Anghyfreithlon. Amlygwyd hefyd, gan wneud hyn hyd yn oed yn fwy anhygoel, nad yw'r wobr genedlaethol fawreddog hon yn cael ei dyfarnu bob blwyddyn oni bai y gellir cyfiawnhau ei rhoi, felly roedd yr achlysur yn dysteb wirioneddol i'r tîm a'i ymroddiad. Mynegodd yr Aelod Cabinet pa mor falch ydoedd o'r Tîm Safonau Masnach, a chredai ei fod yn llwyr haeddu'r wobr hon.

Gwahoddwyd Dilys Harris, Karen Morgan, Laurence Brown, Selina Griffiths a Cathy Zak i'r blaen gan y Maer fel y gallai'r Aelodau gydnabod y cyflawniad gwych hwn.

## 4. CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 27 MEDI 2023

PENDERFYNWYD cymeradwyo bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 27 Medi 2023 (cofnodion rhif 1-14) yn gofnodion cywir.

## ADRODDIADAU SWYDDOGION

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol.

## 5. CYNLLUN CORFFORAETHOL (GAN GYNNWYS AMCANION LLESIANT) 2023-2028

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn cyflwyno Cynllun Corfforaethol Drafft y Cyngor iddo, a hynny'n dilyn ei adolygu gan y Cyd-bwyllgor Craffu ar 26 Hydref 2023 a'i gymeradwyo gan y Cabinet ar 15 Tachwedd 2023. Roedd y Cynllun yn manylu ar yr Amcanion Llesiant newydd ar gyfer y cyfnod nesaf o bum mlynedd o 2023 i 2028.

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor y Cynllun Corfforaethol a oedd yn nodi cyfeiriad, blaenoriaethau ac amcanion y Cyngor ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Esboniodd y modd yr oedd yr Amcanion Llesiant newydd yn helpu i lywio gwasanaethau, i dargedu adnoddau ac i flaenoriaethu ymdrechion wrth i'r Cyngor barhau i ddarparu'r gwasanaethau yr oedd ar gymunedau eu hangen. Amlygwyd bod y Cyngor, ers y Cynllun Corfforaethol diwethaf yn 2018, wedi wynebu heriau digynsail, gan gynnwys pandemig byd-eang, yr argyfwng costau byw parhaus, a gostyngiadau sylweddol a phellgyrhaeddol mewn cyllidebau. Roedd y materion hyn wedi rhoi straen ar adnoddau, wedi profi cydnerthedd, ac wedi arwain at newidiadau yn y sefydliad ei hun, a manteisiodd Arweinydd y Cyngor ar y cyfle i ganmol timau'r Cyngor am yr ymagwedd 'gallu gwneud' anhygoel yr oeddent wedi'i hamlygu. Amlygodd yr Arweinydd hefyd yr angen i addasu er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a wynebid gan y Cyngor, a hynny trwy ganolbwyntio ar hyblygrwydd a chanfod ffyrdd gwahanol o gyflawni'r hyn yr oedd ar gymunedau ei angen, ac ar yr adeg yr oedd arnynt ei angen. Trwy'r Cynllun Corfforaethol, gellid cymryd camau cadarnhaol a blaengar i gyflawni hyn.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol ganllaw cyflym i'r Aelodau ar elfennau allweddol y Cynllun Corfforaethol. Roedd y canllaw yn cynnwys cyflwyniad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, trosolwg o'r Amcanion Llesiant, y modd y byddai'r Amcanion Llesiant yn cael eu darparu, ail-lunio'r Cyngor i fynd i'r afael â'r her, a'r modd y byddai cynnydd yn cael ei fonitro.

Atgoffwyd y Cyngor fod Cynllun Corfforaethol (gan gynnwys Amcanion Llesiant) 2023-2028 wedi cael eu hadolygu a'u trafod yn helaeth gan y Cyd-bwyllgor Craffu, a bod ymatebion wedi'u casglu ar gyfer pob Amcan Llesiant. Amlygodd Aelod ei bod yn bwysig i'r Cyd-bwyllgor Craffu ystyried y Cynllun Corfforaethol cyn i'r Cabinet a'r Cyngor wneud hynny.

Yn dilyn ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn cael ei gymeradwyo. Trwy gyfrwng Microsoft Forms (a chan nodi bod 57 o blaid, 0 yn erbyn ac 1 yn ymatal), cytunodd y mwyafrif a oedd yn bresennol ar hyn.

PENDERFYNWYD:

1. Mabwysiadu'r Cynllun Corfforaethol Drafft (2023-2028) fel yr argymhellwyd gan y Cabinet.

## 6. ADOLYGIAD CYMUNEDOL – CYNIGION DRAFFT

Datganodd y Cynghorwyr C. Bishop, J. Roberts, J. Taylor, W. Williams, C. Andrews, C. Morgan, E.M. Aldworth, L. Phipps, J. Winslade, A. Farina-Childs, K. Etheridge, A. Broughton-Pettit, C. Elsbury, S. Kent, J. Fussell, R, Chapman, A. McConnell, A. Angel, D. Cushing, M. James, H. Pritchard, J.A. Pritchard, T. Parry, G. Enright, C. Mann, B. Miles, S. Morgan, E. Stenner, M. Evans, J. Rao, G. Ead, S. Skivens, L. Whittle, D. Harse, C. Cuss, M. Powell, N. George, P. Leonard, A. Leonard, E. Forehead ac C. Forehead fuddiant personol gan eu bod yn Aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned. Gan mai buddiant personol yn unig oedd hwn, nid oedd yn ofynnol iddynt adael y cyfarfod, a chymerasant ran lawn yn y ddadl a'r bleidlais.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn hysbysu'r Cyngor fod Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) wedi cael ei benodi gan y Cyngor i gynnal adolygiad o'r cymunedau yn y fwrdeistref sirol. Amlygwyd bod y Cyngor hefyd wedi sefydlu Gweithgor Trawsbleidiol i helpu i fframio'r adolygiad, ac amlinellwyd eu hymatebion i'r cynigion yn yr adroddiad. Yn dilyn ymgynghoriad cychwynnol, roedd y Comisiwn bellach wedi cyhoeddi set o gynigion drafft i'r Cyngor eu hystyried. Nodwyd bod barn y Gweithgor Trawsbleidiol yn sail i ystyriaethau'r Comisiwn, ynghyd â Pholisi Meintiau y Cyngor a

pholisïau'r Comisiwn ei hun. Diolchodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd i Aelodau'r Gweithgor Trawsbleidiol am eu cydweithrediad yn ystod y broses adolygu, ac amlygodd fod y Gweithgor Trawsbleidiol wedi dod i benderfyniad unfrydol ar yr argymhellion yn yr adroddiad.

Cyfeiriwyd at gynnig y Comisiwn i drosglwyddo datblygiad Hawtin Meadows o Faes-y-cwmwr i Bontllan-fraith, a mynegwyd pryderon ynghylch nifer yr etholwyr yr effeithid arnynt. Gofynnodd Aelod am i ystyriaeth gael i roi i gynyddu nifer y Cynghorwyr a oedd yn cynrychioli Ward Pontllan-fraith. Roedd y Rheolwr Etholiadau yn cydnabod bod llawer o newidiadau wedi bod ers yr adolygiad cymunedol diwethaf, megis datblygiadau tai newydd, ac felly byddai'n ofynnol adolygu rhai ffiniau cymunedol. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y byddai adolygiad arall o wardiau'r fwrdeistref sirol yn cael ei gynnal yn dilyn yr etholiadau lleol nesaf yn 2027. Eglurodd y Rheolwr Etholiadau mai cyfrifoldeb y Comisiwn oedd cynnal adolygiad o'r cymunedau yn y fwrdeistref sirol, a bod Polisi Meintiau'r Cyngor yn cael ei ddefnyddio wrth gynnal yr adolygiad.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhaodd y Rheolwr Etholiadau y byddai adroddiad y Comisiwn ar ei argymhelliad terfynol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

Yn dilyn ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn cael eu cymeradwyo. Trwy gyfrwng Microsoft Forms (a chan nodi bod 56 o blaid, 3 yn erbyn a 0 yn ymatal), cytunodd y mwyafrif a oedd yn bresennol ar hyn.

PENDERFYNWYD:

1. Cymeradwyo cynigion drafft y Comisiwn, yn amodol ar y diwygiadau a gynigid gan y Gweithgor Trawsbleidiol.

2. Y byddai ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei ddarparu gan y Prif Weithredwr erbyn 4 Rhagfyr.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A THAI AR GYFER 2022-23

Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai 2022-2023 a gyflwynwyd i'r Cyngor. Nodwyd bod Rhan 8 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru gyhoeddi adroddiad blynyddol ar ymarfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr Awdurdod Lleol, a bod canllawiau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor i'w fabwysiadu. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r negeseuon allweddol i'r Cyngor a nodwyd wrth baratoi'r Adroddiad Blynyddol. Amlygwyd bod yr holl flaenoriaethau a nodwyd ar gyfer y gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn wedi'u bodloni, ac roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn 2023-24.

Nodwyd bod yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 28 Tachwedd 2023.

Ac yntau'n Gyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, cyflwynodd y Dirprwy Brif Weithredwr ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022-23, a rhoddodd drosolwg o'r cyflawniadau a'r heriau ar gyfer y flwyddyn dan sylw. Roedd y Dirprwy Brif Weithredwr wedi cofnodi ei ddiolch i'r holl staff a oedd ynghlwm wrth ddarparu gofal cymdeithasol, boed yn gyflogeion y Cyngor neu'n staff a gyflogid gan bartneriaid annibynnol neu bartneriaid y Trydydd Sector, a diolchodd hefyd i'r gofalwyr di-dâl yn y fwrdeistref a oedd yn darparu gwasanaethau cwbl hanfodol.

Ailfynegodd Aelod ddiolchgarwch y Dirprwy Brif Weithredwr, a gofynnodd am i bawb a oedd wedi chwarae rhan mewn darparu Gwasanaethau Cymdeithasol gael eu llongyfarch am eu holl waith caled.

Mewn ymateb i bryder gan Aelod, cadarnhaodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod digartrefedd a diffyg tai fforddiadwy yn cael effaith ar y Gwasanaethau Cymdeithasol, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd meddwl, ond nid i raddau helaeth.

Gofynnwyd am eglurhad a gwybodaeth bellach mewn perthynas â'r broses gwyno ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol. Eglurodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol - y Pennaeth Gwasanaethau Plant, y dull tri cham o ymdrin â chwynion. Amlygwyd bod Tîm Cwynion a Gwybodaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gwneud ymdrech sylweddol i geisio datrys problemau er boddhad y cwsmer yng Ngham 1 y broses, ac adroddwyd yn gadarnhaol fod mwyafrif y cwynion yn parhau i gael eu datrys yn ystod y cam hwn. Amlygwyd ymhellach fod pob ymateb i gŵyn yn cael ei arolygu a'i gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol - y Pennaeth Gwasanaethau Plant, a bod gan yr achwynydd yr opsiwn i dderbyn bod y gŵyn wedi cael ei datrys er boddhad iddo.

Yn dilyn ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn cael ei gymeradwyo. Trwy gyfrwng Microsoft Forms (a chan nodi bod 57 o blaid, 0 yn erbyn a 0 yn ymatal), cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD:

1. Cymeradwyo a mabwysiadu'r adroddiad cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru a'i gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

## 8. OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU – LLYTHYR BLYNYDDOL 2022-2023

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Cyngor fod Llythyr Blynyddol 2022-2023 wedi cael ei gyhoeddi gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â Chyngor Caerffili. Roedd y llythyr yn ymdrin â chŵynion a oedd yn ymwneud â chamweinyddu a methiant gwasanaethau, cwynion a oedd yn gysylltiedig â thoriadau honedig mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad, a'r camau a oedd yn cael eu cymryd i wella gwasanaethau cyhoeddus.

Yn dilyn ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn cael ei gymeradwyo. Trwy gyfrwng Microsoft Forms (a chan nodi bod 58 o blaid, 0 yn erbyn a 0 yn ymatal), cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD:

1. Y byddai cynnwys y Llythyr Blynyddol yn cael ei ystyried a'i nodi.

## 9. HYSBYSIAD O GYNNIG – SAFON BALCHDER MEWN CYN-FILWYR

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Hysbysiad o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd C. Andrews a'r Cynghorydd T. Heron. Amlinellodd y Cynghorydd C. Andrews yr Hysbysiad o Gynnig a oedd yn gofyn i'r Cyngor fabwysiadu'r Safon Balchder mewn Cyn-filwyr (PiVS) i ddangos yn amlwg ei ymrwymiad i ddarparu cymorth cynhwysol a chroesawgar i gyn-filwyr LHDT+ a oedd wedi gwasanaethu, a'u teuluoedd.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ac Adfywio wedi ystyried yr Hysbysiad o Gynnig yn ei gyfarfod ar 7 Tachwedd 2023 a'i gefnogi'n unfrydol.

Croesawodd yr aelodau yr Hysbysiad o Gynnig, a rhoddodd y Cynghorydd L. Whittle anerchiad i'r Cyngor, ar ran grŵp Plaid Cymru, i gefnogi'r Hysbysiad o Gynnig yn llawn.

Yn dilyn ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd yr Hysbysiad o Gynnig. Trwy gyfrwng Microsoft Forms (a chan nodi bod 58 o blaid, 0 yn erbyn a 0 yn ymatal), cefnogwyd yr Hysbysiad o Gynnig yn unfrydol.

PENDERFYNWYD cefnogi'r Hysbysiad o Gynnig.

## 10. CYHOEDDIADAU'R MAER

Nodwyd cyhoeddiadau'r Maer a'r Dirprwy Faer.

## 11. DERBYN DEISEBAU O DAN REOL GWEITHDREFN 28(3)

Cyflwynodd y Cynghorydd J.A. Pritchard ddeiseb ar ran trigolion Tir-y-berth, Glan-y-nant a'r ardaloedd cyfagos, i ddisodli'r groesfan ynys gyfredol ar Heol Newydd yn Nhir-y-berth â chroesfan sebra fwy diogel.

Derbyniodd y Maer y ddeiseb, a byddid yn gweithredu arni'n unol â Chyfansoddiad y Cyngor.

## 12. DERBYN AC ATEB CWESTIYNAU A DDAW I LAW DAN REOL GWEITHDREFN 10 (2)

<u>Cwestiwn a ddaeth i law oddi wrth y Cynghorydd K. Etheridge at Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd S. Morgan.</u>

Gofynnai'r cwestiwn i'r Arweinydd faint yr oedd CBSC wedi'i wario ar ymgynghorwyr, iddo ddiffinio'r amrywiol ddyletswyddau a gyflawnwyd ganddynt yn ystod y 12 mis blaenorol ac a gyflawnid yn y Cyngor ar y pryd, ac a oedd yr Arweinydd yn teimlo bod hyn yn gost-effeithiol ac yn rhoi gwerth am arian.

<u>Ymateb gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd S. Morgan, i'r Cynghorydd K. Etheridge.</u>

Yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23, gwariodd Caerffili ychydig llai nag £1.5 miliwn ar ymgynghorwyr ledled pob agwedd ar ei fusnes. Bu gwariant pellach o £570 mil hyd yma eleni. Felly, byddwch yn sylweddoli bod defnyddio ymgynghorwyr yn arfer cyffredin ar draws meysydd gwasanaethau.

Rydym yn defnyddio ymgynghorwyr ar gyfer llu o bethau; ar gyfer darnau o waith byrdymor neu untro, lle mae arnom angen galluogrwydd nad yw ar gael yn y sefydliad. Rydym yn defnyddio ymgynghorwyr ar gyfer meysydd megis Peirianneg Draenio Arbenigol, Archwiliadau Diogelwch Ffyrdd, Cyngor ar Dir Halogedig, Llunio Uwchgynlluniau, megis Caerffili 2035, neu pan fo Barn Annibynnol yn ofynnol.

O ran ateb y cwestiwn gwerth am arian, efallai ei bod yn werth defnyddio'r enghraifft o raglen Trawsnewid Tîm Symudiadau Caerffili.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Caerffili yn cyflogi ymgynghorwyr i weithio ochr yn ochr â'r Cyngor mewn ymgais i ddod o hyd i arbedion o dros £55 miliwn yn ystod y ddwy flynedd

nesaf. Mae angen i ni drawsnewid y gwasanaeth yn sylweddol ar yr un pryd â gwneud ein gwaith bob dydd. Felly, mae defnyddio ymgynghorwyr am gyfnod byr yn hanfodol.

Mae arwyddion cynnar yn dangos ein bod yn debygol o weld arbedion cylchol o tua £15 miliwn y flwyddyn, ynghyd â gwelliant ym mhrofiad y cwsmer, osgoi diswyddiadau ar raddfa eang ac, yn bwysicach efallai, osgoi toriadau sylweddol i wasanaethau. Felly ydw, rwy'n credu bod hyn yn gost-effeithiol ac yn werth am arian.

Gwn fod llawer o Aelodau yn y Siambr wedi neilltuo amser i ddod draw i'r Gofod Ystwyth i weld drostynt eu hunain werth ymgynghorwyr yn gweithio ochr yn ochr â'n cyflogeion. Er bod gwahoddiadau wedi cael eu hanfon i ymuno â'r stondinau wythnosol, i ddod i'r Seminar Aelodau ddiweddaraf neu, yn wir, i alw heibio a siarad â staff am yr hyn y maent yn ei wneud, nid wyf yn siŵr a ydych wedi derbyn ein cynnig. Mae'r gwahoddiad yn parhau i fod yn agored gan fy mod yn siŵr y byddech yn cefnogi'r defnydd o ymgynghorwyr wrth i ni ddileu costau, diogelu gwasanaethau ac osgoi diswyddiadau ar raddfa eang ar adeg pan fo ein cyllidebau dan fwy o bwysau nag y gallem erioed fod wedi'i ddychmygu.

<u>Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd K. Etheridge at Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd S. Morgan.</u>

A all yr Arweinydd roi syniad ym mhle y bydd yr arbedion yn cael eu gwneud, cadarnhau na fydd yna unrhyw gynlluniau diswyddo gorfodol, a datgan pa wasanaethau nad ydynt yn rhai hanfodol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu had-drefnu.

<u>Ymateb gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd S. Morgan, i'r Cynghorydd K. Etheridge.</u>

Er mwyn sicrhau arbedion a chyflawni popeth o fewn ein gallu i osgoi diswyddiadau gorfodol, rydym yn ystyried sawl maes newid, ynghyd â ffyrdd o gyflawni pethau mewn modd gwahanol a mwy effeithlon, megis gwneud gwell defnydd o adeiladau, edrych ar wasanaethau trwy lygaid y cwsmer, a defnyddio technoleg i lywio arbedion effeithlonrwydd ac archwilio modelau darparu amgen. Mae yna hefyd nifer fawr o syniadau eraill yn cael eu trafod er mwyn i ni gyflawni ar gyfer y cyhoedd sy'n dibynnu arnom.

Hoffwn ailadrodd yr hyn a ddywedais yn fy ateb cynharach, sef bod yr holl syniadau, prosiectau a dulliau a fydd yn cefnogi'r rhaglen hon yn cael eu datblygu "yn agored" yn y gofod ystwyth i bawb eu gweld, ac y gallwch chi, ac yn wir, unrhyw Aelod o'r Siambr hon, achub ar y cyfle i ddod i weld y cynnydd ar waith.

## 13. DERBYN AC ATEB CWESTIYNAU A DDAW I LAW DAN REOL GWEITHDREFN 10 (3)

<u>Cwestiwn a ddaeth i law oddi wrth y Cynghorydd T. Heron at yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau, y Cynghorydd C. Andrews.</u>

A allai'r Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gwasanaethau Llyfrgell?

<u>Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau, y Cynghorydd C. Andrews, i'r Cynghorydd T. Heron.</u>

Yn ddiweddar, rhennais daenlen Excel â'r holl Gynghorwyr a oedd yn dangos yr ystod ychwanegol o wasanaethau y mae ein 18 o lyfrgelloedd yn eu cynnig i breswylwyr a chymunedau. Mae'r ddogfen yn gipolwg mewn amser, ac mae digwyddiadau a sesiynau newydd yn cael eu hychwanegu'n barhaus.

Mae'r digwyddiadau a'r sesiynau hyn yn darparu ar gyfer ein preswylwyr i gyd, o'r ieuengaf i'r hynaf, ac mae enghreifftiau'n cynnwys amser plant bach, Clwb Lego a Duplo,

gweithgareddau crefft amrywiol, clybiau llyfrau, hanes teulu, Cymunedau am Waith, grwpiau sgwrsio Cymraeg a llythrennedd digidol, i enwi dim ond rhai. Ac nid CBSC yn unig sy'n cynnal y sesiynau hyn; mae gennym sefydliadau megis y GIG, Dewis Cymru, Heddlu Gwent, Cornerstone, a mwy, yn manteisio ar y gofod yn ein llyfrgelloedd. Mae'r holl sesiynau yn helpu preswylwyr mewn rhyw ffordd gyda'u haddysg, eu hiechyd, eu llesiant, eu hynysigrwydd cymdeithasol ac o ran datblygu sgiliau iaith, ac, fel y gwelsoch o'r ddogfen, mae'r rhestr yn ddiddiwedd.

I ddyfynnu Uwch-reolwr y Llyfrgelloedd, Karen Pugh, "Dw i'n clywed yr ymadrodd, 'Does neb yn defnyddio llyfrgelloedd bellach' yn llawer rhy aml, ond dyw hyn ddim yn gywir!"

Er ei bod yn ffaith hysbys yn y DU nad yw pobl yn darllen cymaint, nid yw hyn yn golygu nad ydynt yn defnyddio ein llyfrgelloedd i ddibenion darllen neu ddibenion eraill. Mae ein hystadegau blynyddol yn dangos bod cwsmeriaid a phreswylwyr CBSC yn dal i ddarllen, yn dal i ymweld â'n llyfrgelloedd ac yn dal i werthfawrogi ein gwasanaethau llyfrgell yn fawr, a hynny er bod y gwasanaeth yn newid ac yn esblygu i ddiwallu anghenion newydd.

Adlewyrchir hyn yn Adroddiad Asesu 2022-2023 Llywodraeth Cymru ar Chweched Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ar gyfer Caerffili. Er nad wyf yn manylu ar yr adroddiad hwn, bydd gennych gyfle i weld yr Adroddiad Asesu ar Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn nes ymlaen yn 2024, a hynny ar ffurf Eitem Wybodaeth mewn Pwyllgor Craffu. Bydd yr adroddiad yn nodi'r modd y mae Caerffili wedi llwyddo i fodloni pob un o'r 12 o hawliau craidd yn llawn, ac o'r 10 o dargedau dangosydd ansawdd, cyflawnwyd saith yn llawn ac un yn rhannol, gyda dim ond dau darged heb eu bodloni.

Mae ein Gwasanaeth Llyfrgell yn dal i annog ein pobl ifanc i ddarllen yn ystod gwyliau'r haf gyda'i Her Ddarllen yr Haf, sy'n her flynyddol, ac mewn cyflwyniad diweddar yn Siambr y Cyngor, rhoddodd y Maer wobrau i'r enillwyr, pob un ohonynt yn byw mewn ardaloedd gwahanol o'r fwrdeistref. Cydnabu'r Maer hefyd gyflawniadau gwirfoddolwyr a gynorthwyodd gyda'r cynllun.

Canmolwyd y 18 o lyfrgelloedd yng Nghaerffili hefyd mewn rhifyn diweddar o'r *Big Issue,* a hynny am ddosbarthu dros 38,000 o ddiodydd poeth rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Awst diwethaf; gwasanaeth a gafodd ei gynnal ar y cyd â Gofalu am Gaerffili.

Cafodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ei gydnabod gan Age Cymru mewn llythyr agored yn dwyn y teitl, *'We need banks to protect access to local branches in Wales'.* Rydym i gyd yn ymwybodol o'r cynnydd yn nifer y banciau stryd fawr sy'n cau. Mae'r llythyr yn dyfynnu arfer gorau awdurdodau sydd wedi gweithio i frwydro yn erbyn cau banciau, a dywedodd Victoria Lloyd, Prif Weithredwr Age Cymru, *"A good example is Caerphilly, where the local authority has been proactively working with banks who have announced closures within the area to set up alternative provision".* Yn ystod y misoedd diwethaf, mae CBSC wedi cynnig darpariaeth bancio mewn sawl llyfrgell, gan gynnwys Bargod, Coed-duon a Chaerffili, gan helpu i gadw gwasanaeth o ryw fath ar gyfer ein preswylwyr.

Yn olaf, mae'r gwaith ailddatblygu mawr yn Llyfrgell Rhymni bron wedi'i gwblhau, a'r dyddiad ailagor petrus yw dydd Llun 8 Ionawr 2024. Erbyn hyn, mae wedi cael ei ailenwi yn Hwb Llyfrgell Rhymni – Rhymney Library Hub. Bydd arlwy'r Hwb yn mynd i'r afael â bwriad y Cyngor i gefnogi mynediad at ystod o wasanaethau gwahanol yn agos at le y mae pobl yn byw, i helpu i feithrin gweithgareddau cymunedol eraill, ac i gynnal gwasanaethau llyfrgell mewn ardaloedd lleol.

Ar ôl gorfod cau'r Hwb dros dro yn dilyn Storm Eunice, bydd gwaith adeiladu ac ailosod dodrefn yn mynd rhagddo'n fuan yn Llyfrgell Deri. Bydd y safle'n cynnwys toiled ac ystafell ymolchi newydd i bobl anabl.

Yn olaf, bydd Llyfrgell Pengam yn cau dros dro am dri mis ym mis Ionawr 2024 er mwyn adeiladu lleoliad Dechrau'n Deg Cymraeg ei iaith newydd ar y tir y drws nesaf i'r llyfrgell gyfredol. Bydd y llyfrgell yn cael ei hadnewyddu'n llwyr, a bydd partneriaeth newydd rhwng y ddau safle yn cyfrannu'n gadarn at barhad y Gymraeg a diwylliant Cymru.

I gloi, mae 18 o lyfrgelloedd yn parhau i fod wrth graidd a chalon ein cymunedau.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.18pm

Cymeradwywyd bod y cofnodion yn gywir ac, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau y cytunwyd arnynt ac a gofnodwyd yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2024, cawsant eu harwyddo gan y Maer.

__________________________

Y MAER